

## Cyhoeddi enillydd Emyn i Gymru 2022

Fel rhan o ddatliadau *Dechrau Canu*, *Dechrau Canmol* yn drigain oed, lansiwyd cystadleuaeth cyfansoddi emyn yn gynharach eleni. Mewn rhaglen arbennig ar 27 Chwefror cyhoeddwyd mai Eirian Dafydd oedd awdur y geiriau buddugol, gyda'i hemyn 'Gweddi'r Pererin'. Fe'i canmolwyd yn fawr gan y beirniaid, John Gwilym Jones a Catrin Alun, am emyn gafaelgar â delweddu cryf. Yn dilyn y cyhoeddiad aeth Aled Davies ati i'w chyfweld ar ran *Cenn@d*.

**Eirian - yn y lle cyntaf, llongyfarchiadau mawr i ti ar greu emyn mor odidog, ac mor berthnasol i'n cyfnod. Fedri di rannu ychydig o'th hanes a'th fagwraeth â ni?**

Gan mai gweinidog oedd fy nhad, y diweddar Barchedig Trefor Davies Jones, cefais fy magu mewn dwy ardal yn y gogledd - Blaenau Ffestiniog a Llannerch-y-medd ar Ynys Môn. Y pynciau gwyddonol aeth â'm bryd yn Ysgol Syr Thomas Jones yn Amlwch, ac yn ddeunaw oed es i'r brifysgol yng Nghaerdydd a graddio mewn Biocemeg. Arhosais ymlaen wedyn i wneud gradd doethuriaeth cyn gwneud gwaith ymchwil am rai blynyddoedd ac yna newid cyfeiriad a mynd i ddysgu yn Ysgol Gyfun Cymer Rhondda.

**Beth am y gwreiddiau ysbrydol ac unrhyw ddylanwadau mawr ar dy fywyd?**

Bu fy nhad yn ddylanwad yn sicr oherwydd y modd yr oedd yn ceisio byw'r bywyd Cristnogol yn ei waith bob dydd a'i ymwneud ag eraill. Ni allaf honni fy mod yn cofio unrhyw un o'i bregethau'n arbennig, ond mae'r geiriau adnabyddus hyn am Tom Nefyn yn wir am fy nhad hefyd: 'o'i holl bregethau i gyd / y fwyaf oedd ei fywyd'.

**Cofiw i ti ennill hefyd yn eisteddfod rithiol *Cenn@d* y llynedd. Faint o emynau wyt ti wedi eu creu erbyn hyn?**

Ennill ar yr enghlyn a wnes yn eisteddfod rithiol *Cenn@d*. Ar y pryd roeddwn wedi dechrau meddwl am ysgrifennu emyn ar gyfer Sul yr Hinsawdd, ond nid oedd yn fwy na syniad annelwig yn y pen erbyn y dyddiad cau. Ond fe luniwyd yr emyn erbyn Sul yr Hinsawdd. Ysgrifennais emyn hefyd ar gyfer cyfnod y Grawys y llynedd yn dilyn her gan Gwilym, y gŵr, i wneud rhywbeth am y diffyg emynau ar gyfer y tymor yma.



**O ble daeth yr ysbrydoliaeth ar gyfer yr emyn arbennig hwn?**

Y bwriad gwreiddiol oedd ceisio llunio emyn ar gyfer y cyfnod ôl-Covid, yn dilyn y tristwch o ddeall na fyddai rhai capeli'n ailagor eu drysau a sylweddoli bod rhai aelodau wedi cilio dros y ddwy flynedd diwethaf. Ond wrth ddatblygu'r emyn fe aeth ar drywydd ychydig yn wahanol a dod yn weddi i unrhyw un ar unrhyw adeg wrth deimlo bod amgylchiadau'n gwanhau ei ffydd. Defnyddiais ddameg y Mab Afradlon fel delwedd o droi am adre gan wybod bod y Tad yno, yn aros i groesawu'r afradlon yn ôl.

Ym mhenillion 2 a 3 mae cyfeiriadau mwy personol hefyd, lle mae sôn am iachâd. Bùm yn dioddef o psoriasis er pan oeddwn yn 5 oed, ac yn blentyn ac oedolyn ifanc treuliais sawl cyfnod yn yr ysbyty. Yn fy ugeiniau cynnar es i i oedfa gyda'r Weinidogaeth lacháu. Yno maent yn eich bendithio ac yn gweddïo drosoch trwy arddodiad dwylo, a dyna sydd tu cefn i'r llinellau 'a theimlo'r llaw, sy'n estyn i'm hiacháu' a 'daw cyffro dy gyffyrddiad'. Rhaid ychwanegu bod y Weinidogaeth lacháu wedi bod yn gweddïo drosof am flynyddoedd wedyn ac yn sgil hyn fe ddaeth gwellhad anhygoel os nad iachâd llwyr.

**Pa emynwyr wyt ti'n hedmygu eu gwaith? Oes 'na rywrai wedi dylanwadu arnat?**

Anodd iawn yw ateb hwn gan fy mod yn edmygu gwaith y rhelyw o'n hemynwyr. Haws yw nodi'r math o emynau sy'n apelio

ataf neu wedi dylanwadu arnaf - y rhai â neges syml ond sydd hefyd fel pe baent yn siarad yn uniongyrchol â fi neu'n mynegi profiadau y gallaf uniaethu â hwy.

**Petaet yn gorfod dewis UN emyn fel dy ffefryn, pa un fyddai hwnnw?**

Tasg sy'n anelu at fod yn amhosibl yw hon. Ond, o orfod dewis, emyn y diweddar Barchedig John Roberts, 'Pan fwyf yn teimlo'n unig lawer awr' (*Caneuon Ffydd*, 758). Mae'r emyn yn sôn am law'r Ceidwad yn gafael a'r gynhalieth a geir o hynny.

**O gofio bod angen creu emyn-dôn ar gyfer y geiriau, pa fath o dôn fyddet ti'n dymuno'i gweld? Oes gen ti gyngor neu arweiniad i unrhyw ddarpar gyfansoddwyr?**

Mae'r mesur (11.11.11.10) yn un nad oes tòn iddi yn *Caneuon Ffydd*, er nad oeddwn yn ymwybodol o hynny wrth ddechrau ysgrifennu'r emyn. O ran arweiniad i ddarpar gyfansoddwyr, hoffwn dôn ganadwy, un a fyddai'n aros yn y cof ar ôl ei chlywed ac yn rhydd i gynulleidfa oedd ei dysgu.

### Gweddi'r Pererin

Fy Nuw, fy Nhad, pan giliaf i'r cysgodion yn wan fy ffydd, yn blentyn tlawd afradlon, cyfeiria fi at loches y fforddoliaeth lle byddi di, yn disgwyl im nesáu.

Ac wrth nesáu, rhof heibio fy ffolineb wrth geisio'r ffordd i fywyd o ffyddlondeb; trwy niwl fy myd, synhwyro'th bresenoldeb a theimlo'r llaw, sy'n estyn i'm hiacháu.

A thrwy'r iacháu, daw cyffro dy gyffyrddiad yn brofiad byw, yn gyfrwng fy adfywiad; er gwendid ffydd, o obaith daw arddeliad a'th gariad di yn foddion i'w gryfhau.

Ar ôl cryfhau a'm derbyn yn etifedd o fewn dy byrth, caf brofi o'th ddigonedd; rhyfeddu wnaf, O Dad, at dy drugaredd gan aros byth, i'th foli a'th fwynhau.

Yn dilyn cyhoeddi enillydd geiriau'r emyn, mae *Dechrau Canu*, *Dechrau Canmol* yn eich gwahodd i gyfansoddi emyn-dôn ar gyfer 'Gweddi'r Pererin'. Bydd gwobr o £200 i'r cyfansoddwr buddugol. Ceir manylion llawn trwy glicio ar y [ddolen](#)

# O'r Llwyfan

## Y Cyngor a'r Gynhadledd

Cynhelir Cyfarfod o Gyngor Unedig Undeb Bedyddwyr Cymru nos Fercher, 23 Mawrth, am 7yh trwy gyfrwng Zoom. Yn ogystal, mae'r paratodau ar waith ar gyfer y Gynhadledd Flynyddol a gynhelir ar 24–25 Mehefin yng Nghanolfan Halliwell, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, Caerfyrddin. Edrychwn ymlaen at gyfarfodydd yr Adrannau Cymraeg a di-Gymraeg, sydd i'w cynnal ddydd Gwener, 24 Mehefin. Yn yr hwyr fe fydd y Parchedig Ddr Densil Morgan yn cael ei urddo fel Llywydd yr Undeb ar y ddwy adran. Cawn gyfle hefyd am y tro cyntaf ers dwy flynedd i wahodd cynrychiolwyr o'r enwadau eraill i ymuno â ni ac edrychwn ymlaen at gael eu cwmni. Ar y dydd Sadwrn, 25 Mehefin, cynhelir diwrnod 'Gweddi, Gŵyl a Hwyl', gyda'n partneriaid y BMS, Bedyddwyr De Cymru a Choleg y Bedyddwyr, Caerdydd. Trefnir rhaglen amrywiol ac anffurfiol ar gyfer y teulu cyfan. Deisyfwn fendith Duw ar y gwaith paratoi a mawr obeithiwn y bydd yna gefnogaeth i'r cyfarfodydd o blith yr eglwysi.

## Wcráin

Fel Bedyddwyr, rydym yn parhau i weddio'n ddwys dros y sefyllfa yn Wcráin. Cawsom ein tristáu yn ddifrifwr gan ymosodiadau Rwsia ar y wlad. Rydym yn cofio yn arbennig am yr eglwysi yno o bob traddodiad, yn cynnwys tua 2,000 o eglwysi bedyddiedig gyda thros 125,000 o aelodau ynndynt. Meddai Igor Badura, Ysgrifennydd Cyffredinol yr All Ukrainian Union of Associations of Evangelical Christians-Baptists, mewn datganiad yn fuan wedi i'r ymosodiadau ddechrau: 'Mae'r Undeb yn gobeithio creu canolfannau lle bydd adnoddau yn gallu cael eu storio a'u dosbarthu. Gobeithio hefyd y bydd modd creu llety dros dro mewn rhai o'r eglwysi a chynnig cyfleusterau ymolchi a bwydo yn ogystal â darparu adnoddau ar gyfer anghenion sylfaenol.' Mae modd cyfrannu tuag at y gwaith dyngarol hwn drwy Ffederasiwn Bedyddwyr Ewrop (EBF) neu drwy Gyngrair y Bedyddwyr Byd-eang (BWA).

Parhawn i weddio yn daer ac yn gyson dros y sefyllfa yno.



Capel Bedyddwyr Wcráin gan Håkan Henriksson (Narking)

## Cyfarfodydd y Gweinidogion

Ers dechrau'r pandemig bu'r Undeb yn hwyluso cyfarfodydd ar gyfer ein gweinidogion fel cyfrwng cefnogaeth ac anogaeth. Erbyn hyn cynhelir y cyfarfodydd yn fisol ac rydym wedi bod yn ffodus i sicrhau amrywiaeth o gyfranwyr. Hyfrydwch ar ddiwedd mis Chwefror oedd estyn croeso arbennig i Rhys ab Owen AS, sydd yn aelod ffyddlon a gweithgar yn Eglwys y Tabernacl, Caerdydd. Mae hefyd yn gwasanaethu fel diacon a thrysorydd yn yr eglwys, yn ogystal â bod yn bregethwr llyeg. O ran ei alwedigaeth cymhwysodd fel bargyfreithiwr ac fe'i penodwyd yn Farnwr Tribwnlys Haen Gyntaf yn y Siambr Hawliau Cymdeithasol. Yn 2021 fe'i hetholwyd yn Aelod Senedd Cymru dros Ranbarth Canol De Cymru.

Cawsom fyrfyrdod pwrpasol ganddo am oblygiadau'r Ymgawdoliad a'r modd yr oedd y weithred hon wedi

newid ein perthynas nid yn unig â Duw ond gyda'n cymunedau ac â'n gilydd. Roedd yn hollbwysig ein bod yn caniatáu i wleidyddiaeth yr Iesu brocio ein cydwybod gan ei fod uwchlaw gwleidyddiaeth pobl. Nododd Rhys fod mwy o Gristnogion nag erioed yn y Senedd a bod hyn yn cynnig cyfle arbennig i sicrhau y câi egwyddorion Cristnogol le amlwg yn y trafodaethau yno. Roedd hi'n hynod galonogol i glywed am y cwrdd gweddi wythnosol a gynhelir yn y Senedd gydag Aelodau o bob un o'r pleidiau gwleidyddol yn bresennol, yn cynnwys rhai oedd yn arddel y grefydd Islam. Dyma gydweithio o'r math gorau mewn cymdeithas aml-ffydd! Bu Rhys yn barod i ateb nifer o gwestiynau a chawsom orig fendithiol a buddiol yn ei gwmni. Yn naturiol, rydym fel Bedyddwyr yn ymfalchio yn ei gyfraniad egniol a chadarn, a dymunwn fendith gyfoethog Duw ar ei waith.

Judith Morris



## Ymdrech 24 awr anhygoel i gefnogi ffoaduriaid

Gwelwyd lluniau dirdynol iawn o bobl yn ffoi o Wcráin dros y dyddiau diwethaf, gan adael eu cartrefi a'u heiddo, wrth geisio lloches mewn gwledydd cyfagos. Mae'n debyg mai hwn fydd y symudiad mwyaf mewn pobl ers yr Ail Ryfel Byd, ac erbyn hyn mae [DEC](#) (Disasters Emergency Committee) wedi lansio apêl argyfwng. Bu i nifer o gymunedau ymateb yn sydyn i gasglu nwyddau ac offer, a gwelwyd loriau eisoes ar eu ffordd i wlad Pwyl o Gymru – nifer wedi cychwyn o ardaloedd Llanelli a Wrecsam. Mae nifer o eglwysi a gofalaethau hefyd wedi bod yn casglu'n ddiwyd. Dyma un hanes gan Aled Davies o ardal Llŷn ac Eifionydd. Gobeithiwn gynnwys hanesion ardaloedd eraill dros Gymru yn ystod yr wythnosau nesaf – cofiwch yrru eich hanesion a'ch lluniau atom.

Mewn cyfarfod yn y capel, lle'r offrymwyd gweddïau dros bobl Wcráin, bu i sawl un fynegi ei fod yn awyddus i **wneud** rhywbeth, dangos cefnogaeth **mewn ffordd hollol ymarferol** i'r ffoaduriaid hynny oedd yn gadael y wlad ac yn chwilio am loches. Wedi gwneud ymholiadau cafwyd ar ddeall bod tair lorri 'artic' yn gadael Wrecsam o fewn tridiau, gan yrru yn syth i wersyll ffoaduriaid yng ngwlad Pwyl, ar y ffin ag Wcráin, a hynny drwy fudiad [PISC](#) (Polish Integration Support Centre) yn Wrecsam.

Rhannwyd neges eu hapêl gennym ar dudalen Facebook [Gofalaeth Chwilog](#) nos Fercher, yn nodi'r angen am bethau fel blancedi, nwyddau ymolchi, tywelion mislif a chlytiau babi, sachau cysgu, dillad plant ayyb. Roeddem wedi tybied efallai y gellid llenwi car efo digon o nwyddau ar gyfer eu trosglwyddo i Wrecsam o fewn 24 awr. Bu i'r neges Facebook honno gael ei rhannu 210 o weithiau o fewn teirawr, â dros 12,000 o bobl wedi gweld y neges – a dyma'r llifddorau'n agor.

Cyrhaeddodd y llwyth cyntaf yn hwyr y noson honno, ac erbyn 8 o'r gloch y bore canlynol roedd 'na resaid o geir ar y llwybr at y tŷ. Erbyn 10 o'r gloch roedd y car a'r trelar yn llawn, ac aed ati i ddechrau llenwi'r swyddfa, ac yna pentyrru pethau yn y tŷ. Erbyn amser cinio bu'n rhaid dechrau llenwi Neuadd Chwilog, ac erbyn canol y pŵn, gyda degau o lwythi ceir wedi gollwng deunyddiau gwerthfawr, roedd yna gannoedd ar gannoedd o fagiau a bocsys yn llawn nwyddau.



Roedd criw wedi cynnig didoli a phacio'r holl ddeunyddiau, ac o fewn dim roedd tuag ugain o bobl wrthi'n gweithio'n ddiwyd – gan wneud hynny'n ddi-dor am bedair awr. Y broblem wedyn oedd cael ffordd i'w cludo i Wrecsam, a gwnaed apêl am faniau a loriau. Derbyniwyd nifer o gynigion – llawer iawn am fynd yn eu ceir a faniau bach, ond yn y diwedd cafwyd lorri a thair fan fawr i fynd â'r cyfan ar eu taith. Am 5 o'r gloch y pŵn cychwynnyd y confoi ar ei daith, gan gasglu mwy o stoc ym Mhorthmadog a'r Bala, a chyrraedd y ganolfan gasglu yn Wrecsam.

Yno roedd llu o wirfoddolwyr Pwylaidd yn disgwyl amdanom, a dadlwythwyd y cyfan yn sydyn iawn – diolch i'w hegni a'u brwdfrydedd nhw i gefnogi ymdrech ddyngarol yn eu mamwlad. Aethant ati i brosesu a phacio'r cyfan dros nos, eu llwytho ar lorri 'artic', er mwyn cychwyn ar y daith i'r ffin rhwng gwlad Pwyl a Wcráin.

Casglwyd gwerth degau o filoedd o bethau mewn llai nag wyth awr, a rhaid diolch i bawb a fu'n rhan o'r fenter epig – o ganolfannau a siopau oedd yn barod i dderbyn nwyddau, i bawb fu'n wrthi'n eu sortio a'u pacio, i yrwyr y faniau, ac i bawb o ardaloedd Llŷn ac Eifionydd a gyfrannodd mor hael. Bu nifer yn casglu'n lleol: yn eglwysi, ysgolion cynradd ac uwchradd, cartrefi gofal, meddygfeydd a deintyddfeydd, siopau annibynnol a nifer o fusnesau, ac mae ein diolch yn enfawr i bawb. Gwelwyd y stori hon yn cael ei hadrodd ar hyd a lled Cymru, a diolch am weithgarwch yr eglwysi hynny yn rhoi eu ffydd ar waith mewn ffordd gwbl ymarferol i gefnogi lledfdu argyfwng enfawr.



## Arweinwyr ffydd yn annog diwygio'r Bil Ffoaduriaid

Mae arweinwyr prif enwadau Cristnogol a chyrrff eglwysig Cymru i gyd ymhlith dros fil o arweinwyr ffydd ar draws gwledydd Prydain sydd wedi ysgrifennu at Brif Weinidog y Deyrnas Unedig yn ei annog i ailystyried y Bil Cenedligrwydd a Ffiniau. Mae'r arweinwyr, sy'n cynrychioli chwe phrif grŵp ffydd y Deyrnas Unedig, yn dweud eu bod 'wedi eu harswydo ac wedi dychryn am ganlyniadau posibl' y Bil ac yn galw ar y Prif Weinidog i wneud newidiadau brys 'hyd yn oed mor hwyr â hyn'. Yn ôl Cyfrifiad 2011 y chwe phrif grŵp ffydd yw Cristnogaeth, Islam, Iddewiaeth, Hindŵaeth, Sikhiaeth a Bwdhaeth.

Mae'r llythyr, a gyhoeddwyd ar 28 Chwefror 2022, y diwrnod y bydd y Bil yn cychwyn ar ei gamau olaf yn Nhŷ'r Arglwyddi – y cyfle olaf hollbwysig i wneud newidiadau – yn datgan: 'Cyhyd ag y bydd gwrthdaro ac anghyfiawnder yn y byd, bydd pobl ar eu cythlwg yn ceisio lloches rhag rhyfel, erledigaeth a dioddefaint. Allwn ni ddim cau ein drws arnynt, ond dyna'n union y mae'r Bil hwn yn ei wneud.'

'Mynnwn mai'r gwerthoedd sy'n clymu dinasyddion y Deyrnas Unedig at ei gilydd, yn enwedig y rhai sy'n ymwneud ag urddas a bywyd dynol, fydd yn cael eu niweidio'n sylfaenol gan y Bil hwn.'

Yng nghyd-destun gwrthdaro byd-eang cynyddol, gan gynnwys y gwrthdaro yn Wcráin, mae'r ffordd y mae'r Bil yn tanseilio gallu'r Deyrnas Unedig i gefnogi pobl sy'n ffoi rhag gwrthdaro yn amlycach fyth.

Mae'r llythyr yn galw ar Brif Weinidog y Deyrnas Unedig i wneud newidiadau sylweddol i'r Bil. Mae'r rhain yn cynnwys rhoi'r gorau i gynlluniau'r llywodraeth i gyfyngu ar hawliau pawb sy'n cyrraedd y Deyrnas Unedig yn ceisio noddfa fel ffoaduriaid y tu allan i gynlluniau a drefnwyd ymlaen llaw. Ymhlith y bobl hyn mae'r rhai sy'n dod trwy lwybrau anghonfensiynol, er enghraifft mewn cychod neu lorïau, ac yn cael eu trin fel troseddwyd. Dywed y llofnodwyr fod y polisi hwn wedi'i lunio 'heb sail o ran tystiolaeth na moesoldeb'.

Mae'r llofnodwyr hefyd yn honni bod yn rhaid i'r llywodraeth fynd i'r afael ar fyrder â'r methiant i sefydlu llwybrau diogel drwy'r Bil. Byddai hynny'n helpu pobl sy'n



ceisio noddfa i gyrraedd y Deyrnas Unedig, a dywedir bod y methiant hwnnw'n tanseilio nodau sylfaenol y Bil. Maen nhw'n annog y Prif Weinidog i fod yn 'dosturiol ac uchelgeisiol' trwy agor cynlluniau megis aduniad teuluol, llwybrau ar gyfer plant sy'n ffoaduriaid ar eu pen eu hunain yn Ewrop ac adsefydlu.

Mae cynrychiolwyr o gymunedau ym mhob sir yn Lloegr wedi arwyddo'r llythyr, ac mae yna gynrychiolaeth eang o Gymru a'r Alban. Mae llawer o gymunedau ffydd ar draws y Deyrnas Unedig yn gallu tystio ar sail profiad i effaith gadarnhaol llwybrau diogel ar bobl yn eu cymunedau, trwy weithio mewn mentrau integreiddio ffoaduriaid, rhaglenni noddi cymunedol a darparu cymorth brys i ffoaduriaid sydd newydd gyrraedd o Afghanistan.

Mae'r llythyr yn galw ar y Prif Weinidog i ddangos 'arweinyddiaeth wleidyddol' a hybu 'tosturi, bywyd ac urddas dynol', ac mae arweinyddion ffydd wedi gofyn i'r Prif Weinidog eu cyfarfod i drafod eu pryderon.

Dywedodd y Rabi Jonathan Wittenberg, Uwch Rabi Iddewiaeth Masorti: 'Cafodd fy nau riant eu croesawu yma fel ffoaduriaid. Dysgais o'u profiadau i groesawu ffoaduriaid yn fy nhŷ a gweithio gyda fy nghymuned i gefnogi llawer o bobl sy'n cael eu gorfodi i ffoi o'u mamwlad yn ofni am eu bywydau.'

'Rwyf wedi gwrandao ar hanesion torcalonnus am deithiau ceiswyr lloches

ifanc sy'n ysu am gael eu haduno â pherthnasau yn y wlad hon. Mae'r Bil Cenedligrwydd a Ffiniau yn cynnig ein bod yn cau'r drws arnynt mewn modd creulon, gan eu gadael heb unrhyw gyfle am ddiogelwch a dyfodol. Ni allwn adael i hyn ddigwydd. Rwy'n erfyn ar y llywodraeth i agor llwybrau diogel a pheidio â gwahaniaethu yn erbyn y rheini sydd, yn eu hangen dirdynol am loches, yn dod o hyd i ba ffordd bynnag y gallant i gyrraedd noddfa.'

Wrth siarad ar ran ei gofalaeth Annibynnol yng Nghaerfyrddin, fe ddywedodd Beti-Wyn James, Llywydd Undeb Annibynwyr Cymru eleni: 'Fel cynulleidfya sydd wedi croesawu teulu o ffoaduriaid i fyw yn ein tŷ capel, rwy'n credu bod y mesur yma'n un creulon ac afresymol. Mae'n greulon am ei fod am wneud pobl sydd wedi gorfod ffoi o'u gwlad eu hunain ac sy'n ceisio dulliau afreolaidd o gyrraedd Prydain yn droseddwyd. Mae'n afresymol am nad yw'n dweud pa fesurau mae llywodraeth y Deyrnas Unedig am eu cymryd i greu ac ehangu sianelau rheolaidd a diogel a fyddai'n galluogi ffoaduriaid i gyrraedd y wlad heb dorri'r gyfraith.'

Cydlynwyd y llythyr gan y Tim Materion Cyhoeddus ar y Cyd, sy'n cynnwys yr Eglwys Fethodistaidd ym Mhrydain, Undeb Bedyddwyr Prydain Fawr a'r Eglwys Ddiwygiedig Unedig, yn gweithio gydag Eglwys yr Alban.

[Gellir darllen testun llawn y llythyr yma.](#)



## Ordeinio wyth o flaenoriaid yn Henaduriaeth Conwy a Dyfrdwy

Cynhaliwyd cyfarfodydd Henaduriaeth Conwy a Dyfrdwy, Ionawr 2022, yn yr Hen Gapel, Llanuwchllyn, o dan arweiniad y Parch Carwyn Siddall, Llywydd yr Henaduriaeth.

O gofio'r angen i gadw popeth yn ddiogel, nifer cyfyngedig oedd o fewn yr adeilad, ond cawsom arbrofi gyda phresenoldeb eraill ar Zoom. Fel sawl arbrawf gwelsom broblemau, ond ein bwriad fel Henaduriaeth ydi datblygu'r cynllun hybrid yma er mantais i'r greadigaeth hynod hon y cawn y fraint o'i gwarchod.

Pwyllgora fu gwaith cyfarfod y pnawn yn bennaf, yn rhoi trefn ar geisiadau, ymateb i sefyllfaoedd a llythyrau, derbyn gwybodaeth a gwrando ar adroddiadau. Cyfeiriwyd at sefyllfa'r ddau goleg, a diolchwyd am y sylwadau a fu yn *Cenn@d* ynglŷn â hyn. Mae hefyd yn fwriad gennym i ymateb i'r Holiadur Blaenoriaid y mae'r Henaduriaeth wedi ei anfon allan i bob eglwys.

Yna, cawsom hanes yr achos yn eglwysi Gofalaeth Llanuwchllyn. Cyflwynwyd y cyfan gan Emyr Jones, Rhosygwaliau, Cadeirydd yr Ofalaeth, cyn i rai ymuno ar fideo. Cyfeiriwyd at y gweithgareddau a gynhaliwyd dan amgylchiadau Covid-19 gan chwech o ddarpar flaenoriaid, ac mae'n amlwg iddynt wneud y gorau o'r cyfnod anodd. Cafwyd gwerthfawrogiad o waith, consŷrn a chymwynasau eu gweinidog.

Yn ei araith ymadawol, cyfeiriodd y llywydd at yr hyn oedd wedi'i ysbrydoli yn y gwaith. Ar un llaw, roedd ganddo wir ddiddordeb mewn defnyddio technoleg ac mewn cyfathrebu, ond yn bennaf roedd yn awyddus i dynnu'r gorau allan o bobl, gan geisio ffyrdd newydd o gerdded y llwybr. Diolchodd Carwyn am y cyfle i fod yn rhan o ddyfeisgarwch arweinyddion yr eglwysi. Gwelwyd mwy o weithio fel gofalaethau wrth ailagor y capeli yn ystod y cyfnod diweddar, a chafwyd cyfle i groesawu gweinidog newydd i'n plith, sef y Parch Owain Davies. Ar ran y gynulleidfa, cynigiodd Mrs Ann Edwards (Y Gro) air hyfryd o ddiolch i Carwyn am ei holl gyfraniad o fewn gweithgareddau'r Henaduriaeth.

Roedd gwasanaeth y nos yn un arbennig iawn. Unwaith eto roedd y stiwardiaid wedi trefnu'n ofalus iawn o fewn y capel,



gyda chyfyngu ar bresenoldeb y gynulleidfa arferol ond bod cyfle hefyd i ddilyn y gwasanaeth yn rhithiol.

Wedi'r gwasanaeth dechreuol urddasol, aed ati i ordeinio blaenoriaid newydd. Wyth ohonyn nhw. Ie, wyth, mi ddarllenoch yn gywir! Rhai fydd yn gefn i'w cyd-flaenoriaid, i'r aelodau, i weithgareddau ac i weinidogion a phregethwyr. Byddant hefyd yn waed newydd yn natblygiad ein Henaduriaeth ac i Eglwys Bresbyteraidd Cymru i'r dyfodol.

Diolchwn iddynt am dderbyn a dymunwn yn dda iddynt: Gwenda Griffiths a Nia Roberts (Peniel, Trefriw); ac o ardal Llanuwchllyn: Dewi Jones, Awen Mai Jones (Cynllwyd), Elin Mair Roberts a Nerys Siddall (Glanaber), ac Eluned Jones a Linda Morris (Rhosygwaliau). Llywyddwyd y cyfan yn drefnus ac yn annwyl iawn gan y Parch Carwyn Siddall. Rhoddwyd cyngor pwrpasol i'r blaenoriaid newydd gan y Parch Eric Greene yn ei rôl fel Llywydd Cymdeithasfa'r Gogledd ac un o aelodau gweithgar yr Henaduriaeth. Gweddiwyd am fendith Duw ar yr ordeiniad gan y Parch Gerwyn Roberts.

Roedd bod yn y gwasanaeth yn brofiad arbennig; roedd fel cael potelaid o fffisig gwerthfawr at anwyd sydd yn llusgo byw. Gweithred olaf y dydd oedd trosglwyddo llywyddiaeth yr Henaduriaeth i Huw Roberts, Bethel, Melin-y-coed. Cam newydd eto i'r dyfodol, ac yn sicr bydd Henaduriaeth Conwy a Dyfrdwy mewn dwylo doeth a chyfoes ei gweledigaeth dros y ddwy flynedd nesaf. Estynnwyd gair o ddiolch ar ran yr Henaduriaeth i'r Parch Carwyn Siddall gan y cyn-lywydd blaenorol, Eirian Jones.

### HYFFORDDIANT EBC



## CWRS BLAENORIAID

ar-lein, yn cychwyn Mawrth 2022

*addas ar gyfer blaenoriaid newydd, rhai mwy profiadol sy'n weithgar yn eu heglwys leol, a rhai sy wedi gwneud y Cwrs Sacramentau*

Bydd cyfle i drafod gyda chyd-flaenoriaid, gan ystyried rôl ac amcan yr eglwys leol, a gwaith y blaenor o fewn hynny. Bydd y Parch Mererid Mair ac eraill yn arwain, a'r pynciau dan sylw fydd:

- beth ydi blaenor, a beth yw'r disgwyliadau?
- be mae 'cenhadu' yn ei olygu i'n capel ni, a sut gallwn ymestyn allan?
- cefnogi ac ymweld â'r cleifion, yr henoed a rhai mewn galar
- arwain addoliad – sut mae mynd ati?
- Henaduriaeth, Cymanfa, Sasiwn – be ydi be o fewn EBC?

Trefnir pum sesiwn, yn cyfarfod ar lein bob pythefnos, ar amser cyfleus i'r myfyrwyr. Am fwy o wybodaeth, ac i gofrestru, anfonwch at y Cydlynnydd Hyfforddiant, [delyth.oswy@ebcpcw.cymru](mailto:delyth.oswy@ebcpcw.cymru) / 07986932261.

*Mae Mererid Mair yn weithiwr cymunedol yn Noddfa, ac yn weinidog rhan-amser yng Nghaernarfon. Mae hi'n briod, ac mae ganddi ddau fab ifanc.*

# Myfyrdod y Grawys

## Cyfres o chwe astudiaeth gan Gyngor yr Eglwys Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon (CTBI)

### Grawys 2

Darllen Rhufeiniaid 10:11–13



Llun gwreiddio: R Miller/flickr/Diversity

Y mae'r Ysgrythur yn dweud, "Pob un sy'n credu ynddo, ni chywilyddir mohono." Nid oes dim gwahaniaeth rhwng Iddewon a Groegiaid. Yr un Arglwydd sydd i bawb, sy'n rhoi o'i gyfoeth i bawb sy'n galw arno. Oherwydd, yng ngeiriau'r Ysgrythur, "bydd pob un sy'n galw ar enw yr Arglwydd yn cael ei achub, pwy bynnag yw".

#### 1 Rhywbeth i'w drafod gyda'n gilydd

\*Beth ydych chi'n feddwl mae'r darn hwn yn ei ddweud wrthym am natur Duw a'r hyn mae Duw eisiau ar gyfer dynoliaeth? Sut mae Duw yn ein hannog i goesi ffiniau a dangos mai'r un Arglwydd sydd i bawb?

\*Yn hanes y Santes Gwenffrewi, a hithau'n cael ei phlagio gan Caradog, fe geisiodd loches mewn eglwys. Ym mha ffyrdd y gall yr eglwys fod yn lloches i bobl heddiw? Sut mae modd i gysylltiadau eciwmenaidd a thraws-ffiniol atgyfnerthu'r Eglwys mewn cyfeillach? A oes yna raniadau sy'n crefu am gael eu trwsio?

#### 2 Rhywbeth i adfyfrio arno

\*Mae'r Ysgrythur yn ein cyfarwyddo i feddwl am haelioni a thrugaredd Duw. Ydym ni'n dangos yr un haelioni a thrugaredd yn ein bywydau ein hunain fel Cristnogion? A oes pobl o'n cwmpas sydd angen Iesu Grist ond sy'n cael eu 'cywilyddio' gennym ni trwy ein meddyliau, ein geiriau a'n gweithredoedd? Sut mae modd i mi fyw bywydau Cristnogol mwy hael a mwy trugarog?

\*Lle'r ydych yn gweld haelioni a thrugaredd Duw yn hanes y Santes Gwenffrewi? Sut gallai adrodd ei stori helpu eraill i weld mwy o'r hyn mae'r Ysgrythur yn ddweud?

#### 3 Rhywbeth i'w wneud

\*Meddylwch am unigolyn, neu deulu, neu hyd yn oed gymuned yn eich ardal leol y

mae eu pobl yn wahanol iawn i chi. Efallai eu bod yn wahanol o ran ethnigrwydd, treftadaeth, diwylliant, crefydd, barn, defnydd o iaith, neu yn syml iawn, cas a hoff bethau. Meddylwch am ffordd y gallech arddangos haelioni tuag atynt hwy a gwneud hynny. Gall fod yn rhywbeth mor syml â galw heibio, esbonio mai'r Grawys yw hi a holi a oes unrhyw beth yr hoffent hwy i chi weddio drosto. Neu fe allech drefnu digwyddiad a'u gwahodd iddo, neu ddod o hyd i rywbeth ymarferol i'w wneud gyda'ch gilydd.

\*Ystyriwch pam mae'r syniad o 'bererindod' yn dod yn fwyfwy poblogaidd gyda'r sawl sy'n chwilio am ysbrydolrwydd. Allwch chi feddwl am rai pobl yn eich ardal leol chi, nad ydynt yn Gristnogion, ond a allai fwynhau gwahoddiad i ymuno â phererindod y Santes Gwenffrewi? Gallech ddefnyddio'r adnoddau am y Santes Gwenffrewi i wneud yn siŵr fod modd i chi ateb unrhyw gwestiynau am pam y mae'r

bererindod yn digwydd a beth yw ei stori hi. <<https://www.lichfield.anglican.org/season-of-pilgrimage.php>>

#### 4 Treiddio'n Ddyfnach

\*Gwyddom o'r Actau fod llawer o bobl yn argyhoeddedig fod gwahaniaethau mawr rhwng Iddewon a Groegiaid. Ac yr oedd hyn yn codi cwestiwn diwinyddol o gryn bwys i'r Eglwys Fore – a oedd iachawdwriaeth yn Iesu Grist ar gael i bawb neu beidio? Felly mae'r geiriau hyn o'r Rhufeiniaid yn her ddifrifol i ni hyd yn oed heddiw. Er enghraifft, mae rhai pobl yn credu bod rhai mewnfudwyr yn cael tröedigaeth at Gristnogaeth er mwyn hawlio lloches. A yw adroddiadau o'r fath yn gwneud i ni deimlo'n llai hael? Sut ydym ni'n cysylltu â'r geiriau 'bydd pob un sy'n galw ar enw yr Arglwydd yn cael ei achub'?

\*Yn hanes y Santes Gwenffrewi, gwelwn wraig oedd ar fin cael ei threisio yn cael ei hachub yn gorfforol ac ysbrydol. Ond ar yr un pryd, roedd hefyd yn cynllunio i ddianc a defnyddio ei ffydd a'r Eglwys i ddianc rhag cael ei defnyddio fel eiddo rhywun. Ydych chi'n meddwl mai ei bwriad oedd 'defnyddio' yr Eglwys i ddianc o'r byd roedd yn byw ynddo? Sut gall ei stori ein helpu i ymdrin â chwestiynau dyrys ynghylch tröedigaeth a galwadau ar haelioni Cristnogion?

#### 5 Gweddi

Arglwydd Iesu Grist,  
diolchwn i ti am dy drugaredd hael  
at bawb sy'n galw arnat ti.  
Cynorthwya ni y Grawys hwn i fod yn gyson  
yn fwy caredig,  
yn fwy hael, yn fwy cariadus tuag at eraill.  
Helpa ni hefyd, i garu cyn i ni farnu,  
i weld yr hyn sy'n ein huno yn hytrach na'n  
gwahanu:  
i fod yn gyfrwys fel seirff a diniwed fel  
colomennod.  
Er mwyn dy enw,  
Amen







# O'r byd a'r betws Cenedl-garwch?




Byddwn wedi dathlu dydd ein nawddsant mewn ffyrdd amrywiol dros yr wythnosau diwethaf, gan gynnal oedfaon priodol, cyngherddau amrywiol a mwynhau prydau bwyd hyfryd. Rhoddodd y sianeli teledu a radio lwyfannau eraill inni gofio beth yw bod yn genedl, a diolch amdanynt. Gofynnodd Waldo i ni mewn cerdd 'Beth yw bod yn genedl?' a chael yr ateb 'Cadw tŷ mewn cwmwl tystion'. Bydd eraill yn siŵr o holi, a ninnau yng nghyfnod y gemau rygbi rhyngwladol, fel y bardd o Benfro, a chael atebion sy'n sôn am liw het a sgarff wrth fynd i'r dafarn, a chael hwyl gyffredinol, heb lawer o sylwedd.

Pe gofynnid cwestiwn Waldo i lu o drigolion Wcráin, byddai atebion gwahanol eu natur. Gwelsom luniau yn y wasg a darnau o ffilm ar y teledu yn dangos tadau'n ffarfelio â'u teuluoedd ac yn mynd i gydio mewn gynnu, heb hyfforddiant nac unrhyw ddealltwriaeth o dactegau milwrol, i wynebu un o fyddinoedd mwyaf grymus y byd. All y mwyaf heddychlon ohonom ddim ond gwerthfawrogi ymrwymiad pobl i wlad, ac edmygu eu teyrngarwch i'w cenedl. Beth yw cenedlgarwch i drigolion y wlad honno bellach, a mesur eu hymrwymiad dros ei hunaniaeth? Mae'n peri i ni gydnabod bod ein cefnogaeth i dîm rygbi neu bêl-droed, neu hyd yn oed i ganu ein hanthem genedlaethol cyn bwyta pryd o fwyd a gostiodd £25 mewn gwesty, yn arwynebol iawn.

Clywsom Vladimir Putin yn datgan nad yw trigolion Wcráin yn genedl o gwbl, a bod ei syniad ef am hunaniaeth pobl Wcráin yn gwbl wahanol i bawb arall. Beth bynnag yw cyflwr meddwl Mr Putin am Wcráin, nid oes modd deall ei ddirnadaeth o hanfod hunaniaeth unrhyw genedl, gan gynnwys ei genedl ei hun. Ai twyll neu realiti oedd/ yw ei barodrwydd i ddefnyddio arfau niwclear i hyrwyddo'i achos? Pwy a ŵyr beth yw'r ateb? Yn ystod y pythefnos rhwng 21 Chwefror a 6 Mawrth, bydd ymgyrch Masnach Deg wedi ceisio dwyn sylw at gyfiawnder yng nghydestun yr hinsawdd. Pwy all ddychmygu beth fyddai'r canlyniad pe gwelid rhyfel byd-eang yn defnyddio arfau niwclear? Efallai na fyddai byd ar ôl i boeni amdano!

Un o'r erthyglau mwyaf difyr a gyhoeddwyd yn ddiweddar (*Sunday Times*, 27 Chwefror) oedd eiddo Ben Spencer, a drafodai ddibyniaeth nifer o wledydd Ewrop ar nwy Rwsia. Beth bynnag fydd effaith y sancsiynau ariannol ar Rwsia, erys y ffaith bod 40% o'r nwy y mae Ewrop yn ei ddefnyddio yn dod o Rwsia. Os



Llun: Dafydd Williams, Rhuthun, CC BY-SA 4.0

yw gwledydd Prydain am leihau eu defnydd o egni sy'n dod o losgi ffosiliau, dylid bod wedi datblygu dulliau o gynhyrchu egni drwy ddefnyddio deunydd adnewyddol, megis gwynt, haul a thonau'r môr. Mae'n hen bryd i bob adeilad ym Mhrydain, gan gynnwys ysgolion a chapeli, osod paneli solar, gyda batriau addas, ar fyrder. Nid bod hynny'n datrys sefyllfa Wcráin, ond o leiaf byddai'n gam bach tuag at beidio bod mor ddibynnol ar Rwsia am egni ar ein cyfandir.

Gweddian weddian o edifeirwch am ein hunanoldeb materol a gweddian o eiriolaeth dros ffoaduriaid y byd a thrigolion dewr Wcráin heddiw. Diolch am arweiniad llenyddiaeth Cymdeithas y Cymod a gwaith Cytûn ar ein rhan, ac ymrown i wneud popeth a allwn er lles y ddynoliaeth gyfan.

Denzil John

S4C

*Dechrau Canu, Dechrau Canmol*

Sul, 13 Mawrth, am 7:30yh (ailddarlliedir am 11:30yb y Sul canlynol)

Bydd Ryland 'nôl yng nghaffi'r Hedyn Mwstard yn Llanbedr Pont Steffan i ymweld â'u heglwys newydd sbon a chawn gwrdd ag unigolion sydd wedi bod yn brysur yn rhoi ail fywyd i festri Capel Bryngwenith.

Dyma gopi o gylchlythyr mis Mawrth –

<https://express.adobe.com/page/tv4oZzSukdxw/>

BBC | radio  
cymru

*Caniadaeth y Cysegr*

Sul, 13 Mawrth, am 7:30yb a 4:30yp

Ymunwn ag R. Alun Evans sy'n cyflwyno cyfres ar amrywiol themâu. Yr amgylchfyd sy'n mynd â'i fryd yn y rhaglen hon o ganu mawl.

*Oedfa Radio Cymru*

Sul, 13 Mawrth, am 12:00yp

Gwasanaeth dan ofal Alun Tudur, Caerdydd

# Dyma gyfarfod hyfryd iawn

## Llwybr a cherddeddiad

Gwedd emyn 793 'Duw fo yn fy mhen'

Emyn 541 'O Fab y Dyn'

Darlleniad Luc 13:31-5 Y Llwybr

Wedi'r cyfarfyddiad rhyfeddol ar Fynydd y Gweddnewidiad trodd Iesu ei wyneb tuag at Jerwsalem. Rhybuddiodd ei ddisgyblion droeon fod awr enbyd ei gamdriniaeth, ei groeshoeliad a'i atgyfodiad ar y gorwel. Drwy gydol tymor y Grawys cawn y fraint o'i ddilyn ef, yr hwn 'ni wybu lwfrhau'. Cawn ein galw fel ein Gwardwr ei hun i lafurio, hyd yn oed os bydd gelyniaeth a gwrthwynebiad am ein rhwystro. Rhannwn ddyhead yr Arglwydd i fendithio 'Jerwsalem'. Dyhëwn am gael gweld ein dinasoedd a'n trefi, ein pentrefi a'n broydd yn cael eu casglu dan ofal yr Arglwydd. Gweithiwn gan ddisgwyl dyfodiad bendigedig a chyflawniad gair yr hwn sy'n dyfod yn enw'r Arglwydd.

### Gwedd

Dduw pob cariad a heddwch, mae gofid dy fyd dolurus di fel brath yn ein henaid. Arglwydd, mae ei gri yn ein herio i ymwroli ac i groesawu brenin heddwch a thangnefedd i'n plith. Arglwydd, gweddiwn dros ddinasoedd mawr y byd, y miliynau o bobl sydd heb dy adnabod, y cymunedau clwyfedig, y plant sy'n tyfu a fydd yn dwyn creithiau eu babandod drwy eu hoes. Tyrd di atom, Arglwydd, i gasglu dy blant fel y mae'r iâr yn casglu ei chywion. Gweddiwn dros y rhai sy'n gwrthwynebu ffyrdd tangnefedd a llwybrau trugaredd. Tyrd atom unwaith eto, ti yr hwn a ddaethost ac a ddaw drachefn yn enw'r Arglwydd.

### Salm 27 Dysg i mi dy ffordd

Pwy ohonom nad ydym yn deall o brofiad beth yw wynebu amgylchiadau tywyll, neu nad ydym wedi cael ein llethu gan ofnau? Pwy ohonom sydd heb deimlo bod amgylchiadau, neu anghydfod rhwng cyfeillion, neu densiynau teuluol hyd yn oed, fel pe baent yn lleng o filwyr yn cau amdanom? Daw 'dydd adfyd' i bawb, ac i'r credadun cryfaf ei ffydd daw oriau pan fydd yn ymddangos fel petai presenoldeb yr Arglwydd wedi cilio oddi wrthym. Dyna yn wir y math o brofiadau y mae'r Salmydd yn cyfeirio atynt yma.

Gwyrth ffydd, a champ gwaith gras ynom, yw ein gallu hyd yn oed yn yr amgylchiadau mwyaf dyrys i barhau i ddilyn ffordd

yr Arglwydd. Ac mae'r Salmydd am i ni wybod, bob un ohonom, mai testun ei hyder a'i ffydd yw'r sylweddoliad mai oddi wrth yr Arglwydd ei hun y daw ei gadernid, ei llwybr, ei oleuni i'w arwain ar y ffordd ymlaen. Daw'r Arglwydd â 'goleuni' i'r pydew dyfnaf. A daw gobaith ac iachâd a bywyd yn ei sgil. Mor ddiogel yw gafael yr Arglwydd ar y Salmydd fel y medr gyhoeddi mai ei wrthwynebwyr fydd y rhai fydd yn baglu ac yn syrthio yn ôl. Gan hynny, yr 'un peth', yr un rhodd ddwyfol a geisiai oedd cael byw ym mhresenoldeb yr Arglwydd a chael ei gyfareddu gan ei 'hawddgarwch'.

O'r agosrwydd hwn y deillia pob hyder a llawenydd. Ei ddeisyfiad oedd cael cerdded llwybrau clir ac union. Nid deisyfu llwybr hawddfyd mo'r dyhead hwn. Awydd ei galon oedd cael rhodio ar hyd llwybr uniondeb, gonestrwydd a chywirdeb, ac nid ar hyd traffyrdd llithrig ei wrthwynebwyr twyllodrus.

Tybed a fyddem ni'n rhannu awydd y Salmydd ac yn rhannu ei hyder mewn amgylchiadau blin?

### Gwedd

Dduw ein goleuni a'n nerth, caniatâ i ninnau heddiw ganfod dy oleuni a'th iachawdwriaeth yn Iesu Grist. Crea ynom drwy dy Ysbryd Glân galon newydd, ag awydd newydd am gymdeithas ddyfnach gyda thi, am adnabyddiaeth fydd yn dwyn gobaith a bywyd i'n hamgylchiadau dyrys. Arglwydd, dysg i ni dy ffordd. Amen.

### Darllen Philipiaid 3:17-4:1

Yn ddiweddar dangoswyd cyfres o raglenni am *Efaciwis* ar S4C. Yn y gyfres dilynwyd hynt a helynt nifer o blant a phobl ifanc o ddinasoedd Lloegr a symudwyd dros dro i ardal Gymreig i fyw. Y bwriad oedd ceisio ail-greu heddiw'r profiad a ddaeth i ran miloedd o blant yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Roedd dieithrwrch eu hamgylchiadau dros dro yn amlwg iddynt: yr iaith, y gwerthoedd, yr arferion. Ond er eu bod wedi eu gwahanu dros dro o'u cartrefi a'u teuluoedd, gwyddai plant y gyfres mai dros dro fyddai eu harhosiad yma yng Nghymru. Caent ddychwelyd i'w cartref: 'Draw mae 'ngenedigol wlad'!

Ac ar y lefel fwyaf arwynebol ceir rhyw adlais o'r tensiynau hyn yng ngeiriau'r Apostol Paul wrth y gynulleidfa yn Philipi.

Roeddynt yn 'gyfeillion', yn 'anwyliaid', yn 'llawenydd' ac yn 'goron' iddo (4:1). Er bod eu cyfeiriad a'u cod post daearol yn Philipi, nid dyna leoliad eu dinasyddiaeth nefol. Gwyddai Paul gymaint o falchder a deimlid gan ddinasyddion Rhufeinig oedd yn byw mewn trefedigaeth Rufeinig. Caent fwynhau breintiau dinasyddion yr Ymerodraeth er eu bod yn byw ymhell o Rufain. Ac fel dinasyddion Rhufeinig roedd ganddynt amddiffynfa'r Ymerawdwr yn erbyn gelynion, a breintiau diwyllianol a chyfreithiol yn ogystal â chyfrifoldebau dinesig lleol.

Dyna, o bosib, sydd ym meddwl Paul wrth iddo gyfarch y Philipiaid a'u hannog i fyw mewn ffordd oedd yn anrhydeddu eu braint o fod yn ddinasyddion Nef. Onid oedd ef ei hun yn batrwm o'r hyn yr oedd byw fel dinesydd nefol yn ei olygu?

Roedd 'llawer' o bobl, er eu bod o bosib yn proffes ffydd, mewn gwirionedd yn elynion croes Crist. Roedd eu 'ffordd o fyw' yn eu bradychu. Gelynion Crist a'i arglwyddiaeth oeddynt mewn gwirionedd. Daearol oedd eu bryd, a distryw oedd canlyniad eu dewisiadau.

Mor wahanol obeithiol yw bywyd y Cristion ym mhob oes. Caiff ein bywydau daearol (fel unigolion a chynulleidfaeoedd) eu byw fel pe baem yn ddinasyddion mewn trefedigaeth nefol. A chan ddefnyddio teitlau ac ieithwedd ymerodrol, mynnodd Paul nad Cesar oedd y gwir 'wardwr' ac mai'r 'Arglwydd' go iawn yw Iesu. Trwy nerth aruthrol ei allu, meddai, trawsnewidir ein cyrff meidrol a'u gwneud yn addas i'n mamwlad nefol. Byddwn yn debyg o ran ein gwedd i Iesu yng nghorff ei Atgyfodiad.

Ein disgwyliad am *beth fydd* i ni wedi i ni gwblhau ein taith daearol yw'r hyn sy'n ein cymell, yn ein hysgogi, yn cryfhau ein gobeithion ac yn sbardun i fynegi ein ffydd drwy ein ffordd o fyw yng nghanol yr *hyn sydd* heddiw.

### Gwedd

**Emyn** Er na cheir 'Dyn dieithr ydwyf yma' yn *Caneuon Ffydd*, ceir tri phennill yn *Emynau a Thonau* (608) a gellir gweld yr emyn gwreiddiol yn llawn yn *Caniadau y rhai sydd ar y môr o wydr*, emyn xix. <https://tinyurl.com/4t9rx8f4>

RWJ

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru. Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:

[watcyn@cennad.cymru](mailto:watcyn@cennad.cymru) | [huw@cennad.cymru](mailto:huw@cennad.cymru) | [aled@ysgolsul.com](mailto:aled@ysgolsul.com)

[www.cennad.cymru](http://www.cennad.cymru) | [f CennadCymru](https://www.facebook.com/CennadCymru) | [t @CennadCymru](https://twitter.com/CennadCymru)